# **Cylchdaith – Brynsiencyn** (SH484670)

Gweler y map isod

## 1. Brynsiencyn – Ardal Coedlan (cyfeiriad clocwedd)

Trowch i'r dde allan o'r maes parcio a dilynwch y tir i lawr yr allt tuag at Eglwys Sant Nidan. Mae gwyddfa bychan cuddiedig yn y cae ar y dde i chi wrth i chi fynd i lawr. A fedrwch chi ei weld? Ychydig yn nes ymlaen trowch i'r dde i lwybr cyhoeddus ar draws cae. Cadwch tuag at dop ochr dde'r cae wrth ddod at y goedlan ac ewch drwy'r giât fechan sydd ar dop y gamfa garreg. Yna cerddwch drwy'r goedlan, trwy lecyn wedi'i glirio ac ewch dros gamfa yn y wal yn y gornel ochr chwith.

## 2. Ardal Coedlan – Pier Tal-Y-Foel


Gyda'r wal ar eich chwith, cerddwch ar draws y ddau gae nesaf. Yna cerddwch nesaf at y ffens gan gadw'n gyfochrog â'r Afon Menai ar eich chwith. Croeswch lwybr, ewch drwy'r cae nesaf ac yna trwy giât fechan. Croeswch y cae nesaf yna ewch dros gamfa yn ymyl y coed pinwydd ar y lan, trowch i'r dde ac yna byddwch yn ymuno â'r lôn, dilynwch hi gan gadw'r un llinell i lawr yr Afon Menai. Byddwch yn mynd heibio Halen Môn a'r Sŵ Môr yn fuan. Gellwch gymryd y llwybr cyhoeddus sy'n mynd tua'r dde yma fel taith fer amgen.

## 3. Pier Tal-Y-Foel – Cerrig Y Barcud

Cadwch yn eich blaen heibio Pier Tal Y Foel gan wneud eich ffordd dros y cerrig ar y lan. Pan yr ydych yn fras gyferbyn â Chastell Caernarfon, mae llwybr troed yn arwain i ffwrdd yn union yn ymyl bwthyn ar y traethlin. Cymerwch y llwybr hwn yn syth i fyny'r ddau gae nesaf nes y dowch at fferm 'Cae Mawr'. Trowch i'r dde, dros y gamfa ar ben y lôn ac ar hyd y llwybr o amgylch cefn yr adeiladau allanol a chadwch at y dde tuag at gamfa. Gan gadw'r gwrychyn ar eich chwith, dilynwch y llwybr am ddau gae. Yna ewch am y dde ar hyd y gwrychyn sydd o'ch blaen a thros gamfa i'r cae nesaf gyda'r gwrychyn erbyn hyn ar y dde i chi. Cerddwch yn syth ar draws y cae hwn i'r cae mawr nesaf a dilynwch y llwybr amlwg i lawr i 'Gerrig y Barcud' a trowch i'r chwith.

## 4. Cerrig Y Barcud – Brynsiencyn

Yn union cyn fferm 'Fron Heulog' trowch i'r dde i lawr llwybr arall. Ewch i lawr y llwybr coediog hwn heibio tŷ . Ar gornel ble mae'r lôn yn mynd tua'r chwith mae'r llwybr cyhoeddus yn mynd i'r dde, trwy giât, ac yna i'r chwith dros gamfa i gae mawr. Dilynwch y gwrychyn ar eich chwith at giât sy'n arwain allan trwy gae bach i lawr i fferm 'Tyddyn Albert'. Croeswch y llwybr drwy'r giât mochyn a chadwch at y dde gan fynd o amgylch cefn y tŷ . Ewch drwy'r giât mochyn yma, trowch i'r chwith a dilynwch y gwrychyn i'r giât nesaf, Byddwch yn mynd drwy ddau gae bach er mwyn dod allan i lwybr. Trowch i'r chwith ac yna bron yn syth i'r dde. Mae'r lôn hon yn mynd â chi'n ôl i gefn Brynsiencyn. Pan ydych yn ymuno â'r brif lôn, trowch i'r dde ac ewch drwy'r pentref a byddwch yn eich cael eich hun tu allan i dŷ tafarn y 'Groeslon', gyferbyn â'r maes parcio ble y cychwynnoch y daith.




Tra bod pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir ar amser y cyhoeddiad, ni ellir derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gamgymeriadau neu esgeulustod.